Sarah Hodges, Adran Strategaeth Wastraff
Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
3ydd Llawr, Adain y De
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

**Ein cyf:** ICSPR1
**Eich cyf:** WG18015

**Dyddiad:** 20fed Mehefin 2013

# Ymateb drafft i'r Ymgynghoriad ar Ddrafft y Cynllun Sector Diwydiannol a Masnachol

## Sylwadau Cyffredinol

O 1af Ebrill, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r gweithgaredd a nodir yn y Rhaglen Atal Gwastraff.

Bydd angen parhaus i fonitro tueddiadau gwastraff yng Nghymru. Mae gennym nifer o wahanol setiau data ynghylch gwastraff y gellid eu defnyddio o bosibl mewn rôl fonitro. Efallai hefyd y bydd angen casglu data ynghylch gwastraff sy'n deillio o'r sectorau masnachol a diwydiannol yng Nghymru o bryd i'w gilydd. Byddai gwybodaeth am gynhyrchu a rheoli gwastraff yng Nghymru y tu hwnt i'r hyn y byddem fel arfer yn ei gasglu fel rheolydd gwastraff. Yn y gorffennol, rydym wedi cynnal arolygon sgil-gynhyrchion gwastraff ar ran Llywodraeth Cymru gyda chyllid penodol. Os yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal arolygon yn y dyfodol, yna byddai'n ddefnyddiol ymgysylltu â ni'n gynnar.

**Cwestiwn Ymgynghori 1**
A ydych yn cytuno â chanfyddiadau a chasgliadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymau.

Rydym wedi darparu ein sylwadau ar yr arfarniad cynaliadwyedd ar wahân, ond er mwyn darparu ymateb cyflawn fe'u cynhwysir yma fel Atodiad 1.

**Cwestiwn Ymgynghori 2:**
Dyma'r targedau atal gwastraff arfaethedig ar gyfer y ffrydiau gwastraff diwydiannol a masnachol: Gostyngiad cyffredinol o 1.4% bob blwyddyn i 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7 ar gyfer gwastraff diwydiannol, gyda thargedau penodol ar gyfer y sectorau â blaenoriaeth unigol (a nodir yn adrannau 3.6 a 3.7 isod):

Ffôn/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

- *Gweithgynhyrchu metel sylfaenol a chynnyrch metel*
- *Gweithgynhyrchu papur a chynnyrch papur*
- *Gweithgynhyrchu cemegau, cynnyrch cemegol, cynhyrchion fferyllol*
- *Gweithgynhyrchu bwydydd*

Gostyngiad o 1.2% bob blwyddyn i 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7 ar gyfer gwastraff masnachol.  Caiff cynllun cyflawni ei ddatblygu i gyflawni yn erbyn y targedau hyn.
A ydych yn cytuno â'r targedau a gynigir? Rhowch eich rhesymau.
Pa dargedau y dylid eu cynnig ar gyfer y sectorau diwydiant pwysicaf? Rhowch eich rhesymau.

Rydym yn cytuno â'r cynigion i weithredu targedau lleihau gwastraff ar draws pob gwastraff diwydiannol a masnachol. Mae'n anodd darparu targedau penodol ar gyfer sectorau heb ddealltwriaeth fanwl o’r potensial ar gyfer y gweithfeydd diwydiannol unigol. Ni cheir y lefel hon o fanylion yn y cynllun sector, felly rydym yn teimlo bod targedau cyffredinol yn ddigonol at ddibenion y cynllun. Fodd bynnag, mae angen sylw pellach i weld a yw’r targedau hyn yn gyraeddadwy.

Mae gan yr holl sectorau â blaenoriaeth a nodwyd gennych safleoedd oddi mewn iddynt sy'n cael eu rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR). Mae’r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn trawsosod gofynion y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yng nghyfraith y DU. Mae'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn ei gwneud hi’n ofynnol i’r holl weithgareddau a restrir gymryd camau i atal cynhyrchu gwastraff yn unol â Chyfarwyddeb 2008/98/EC (Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig). Mae'r gofyniad hwn wedi cael ei gyflwyno drwy amodau trwydded EPR ar gyfer y safleoedd hynny sydd o fewn y cwmpas.

Gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rywfaint o waith Effeithlonrwydd Adnoddau gyda'r sector trwyddedig yn 2008-2010. Er bod cyfleoedd clir ar gyfer atal gwastraff mewn rhai sectorau, adroddodd rhai diwydiannau fod llawer o'r cyfleoedd ar gyfer lleihau gwastraff wedi cael sylw, a bod eu prosesau mor effeithlon ag yr oedd y dechnoleg bresennol yn caniatáu. Felly, efallai y byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r diwydiannau â blaenoriaeth i sicrhau bod unrhyw dargedau a osodir yn gyraeddadwy.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'ch swyddogion i adolygu sut y mae cydymffurfiaeth ag amodau trwydded yn cael ei sicrhau. Lle nodwyd gwelliannau posibl, byddwn yn ceisio eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw gofynion y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn berthnasol i bob busnes ar draws y sectorau â blaenoriaeth. Prin yw dylanwad Cyfoeth Naturiol Cymru ar y safleoedd hynny sy'n gweithredu o dan drothwyon y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol. Gall y rhain fod yn destun rheoleiddio gan awdurdodau lleol neu y tu allan i gwmpas y rheoliadau’n gyfan gwbl.

Ymddengys bod y ffocws ar eco-gynllunio, modelau busnes effeithlon o ran adnoddau a chadwyni caffael a chyflenwi gwyrdd yn feysydd priodol, ond nid oes unrhyw arwydd sut y llwyddir i gael diwydiant a masnach yn gyffredinol i fabwysiadu’r egwyddorion hyn.

Ffôn/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

**Cwestiwn Ymgynghori 3**
Rydym wedi disgrifio'r sectorau busnes pwysicaf a'r meysydd ar gyfer gweithredu.
(a) A ydych yn cytuno â'r blaenoriaethau hyn? Rhowch eich rhesymau.
(B) A oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried yn flaenoriaeth? Pam mae'n bwysig?
(c) A ydych yn cytuno â'n dull arfaethedig o weithredu gwirfoddol i ddechrau, gyda mesurau gorfodol yn cael eu hadolygu yn y tymor hwy? Rhowch eich rhesymau.

Mae'n glir bod modd cyflawni buddiannau posibl gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Adroddodd arolwg sgil-gynhyrchion gwastraff Masnachol a Diwydiannol yng Nghymru 2007, a reolwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod 57% o wastraff diwydiannol a 51% o wastraff masnachol a gynhyrchwyd gan gwmnïau sy'n cyflogi hyd at 20 o bobl, yn cael ei reoli drwy dirlenwi.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli'r arolwg diweddaraf ar gyfer sgil-gynhyrchion gwastraff yn 2012. Mae'r adroddiad i'w ryddhau ym mis Ebrill 2014, a bydd yn darparu darlun mwy diweddar. Dylid ystyried cynnal arolygon gwastraff diwydiant a masnach ar sail statudol. Dyna yw'r sefyllfa yn yr Alban lle mae arolwg blynyddol gorfodol yn cael ei gynnal ar ffurf arolwg drwy'r post. Ar hyn o bryd, mae arolygon sgil-gynhyrchion gwastraff yng Nghymru yn cael eu cynnal ar sail wirfoddol ac yn cael eu cynnal ar ffurf arolygon dros y ffôn ynghyd ag ymweliadau safle er mwyn sicrhau y ceir sampl gynrychioliadol. Byddai sail statudol ar gyfer yr arolygon hyn yn hwyluso casglu data'n fwy effeithlon e.e. drwy gynnal yr arolwg drwy'r post neu lenwi ffurflen electronig. Prin yw ymwneud Cyfoeth Naturiol Cymru â busnesau bach a chanolig neu'r sector llety a bwyd onid ydynt o fewn cwmpas y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Efallai y byddwn yn gallu helpu Llywodraeth Cymru i gynnal arolygon gyda'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

**Cwestiwn Ymgynghori 4**
Cynigir y bydd Llywodraeth Cymru a manwerthwyr yn adeiladu ar lwyddiant codi tâl am fagiau siopa a gweithredu ledled y DU drwy Ymrwymiad Courtauld a mentrau eraill, gan arwain at fanwerthwyr yn datblygu camau ar y canlynol:

- Gwella effaith amgylcheddol eu portffolio cynnyrch drwy ddylanwadu ar dyfwyr, proseswyr, gwneuthurwyr a dosbarthwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir drwy eu gweithgarwch eu hunain.
- Cefnogi mentrau cenedlaethol a lleol megis cynlluniau ailddosbarthu bwyd.
- Darparu gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am berfformiad amgylcheddol eu cynnyrch.
- Darparu gwybodaeth a chanllawiau ar gamau ymarferol y gall defnyddwyr eu cymryd i leihau effaith eu cynnyrch wrth eu defnyddio ac ar ddiwedd eu hoes.

Pa gamau a mentrau pellach y gellir eu cymryd i wella ein rhaglen waith bresennol, ac i ategu'r camau uchod?

Rydym yn llwyr gefnogi'r rhain ac unrhyw fesurau eraill sy'n atal gwastraff yn y man cynhyrchu.

Ffôn/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

**Cwestiwn Ymgynghori 5**
Sut y gall Llywodraeth Cymru annog busnesau i ymwneud ag eco-arloesedd?

Credwn fod nifer o fesurau y gellid eu cyflwyno i yrru eco-arloesedd. Gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno gofynion gorfodol i yrru eco-arloesedd ac atal gwastraff. Mae Erthygl 8 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn caniatáu i aelod-wladwriaethau gyflwyno gofynion cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig, naill ai drwy lwybrau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol. Mae cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr eraill yn y DU (ar gyfer Pecynnu, Cerbydau Diwedd Oes, Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a Batris) wedi arwain at gynyddu cyfraddau ailgylchu a hefyd wedi arwain at well dylunio i leihau gwastraff.

Gellid ystyried hefyd ofynion y Cyfarwyddebau Eco Ddylunio. Dylid ystyried pennu mabwysiadu egwyddorion eco-arloesedd fel rhagofyniad ar gyfer unrhyw gymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth.

**Cwestiwn Ymgynghori 6**
Ceir adolygiad o'r dystiolaeth ar draws y DU ac yn rhyngwladol ar y rhwystrau i atal gwastraff a mesurau sy'n benodol i'ch sector yn:
http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=0&ProjectID=17499
A ydych yn cytuno â'r dystiolaeth hon ar gyfer eich sector yng Nghymru? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny?
Pa gymorth sydd ei angen ar eich busnes i ddod yn fwy effeithlon o ran adnoddau a pham?

Mae ein gwaith gyda diwydiannau a reoleiddir gennym ni o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn awgrymu nad yw busnesau mewn llawer o achosion yn deall y manteision ariannol posibl, neu fod modelau busnes a'r cyfnodau 'ad-dalu' ar gyfer buddsoddiad sylweddol yn aml yn atal buddsoddiad mewn seilwaith newydd a allai leihau gwastraff. Trwy ddarparu cefnogaeth i fusnesau i'w helpu i nodi arbedion posibl, efallai y gellid ysgogi rhaglenni lleihau gwastraff o fewn y cwmnïau.

**Cwestiwn Ymgynghori 7**
Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gellir dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad busnes er mwyn i fusnesau allu dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Rydym yn defnyddio ymagwedd fframwaith cymwyseddau i wneud hyn.
A ydych yn cytuno bod fframwaith cymwyseddau'n ddefnyddiol i feincnodi perfformiad a bod yn sail i unrhyw ymyriadau? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny?
A ydych yn cytuno bod fframwaith cymwyseddau yn ymagwedd ddefnyddiol i fod yn sail i raglen cymorth busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y dyfodol ac i dargedu hyn? Os nad ydynt, beth yw'r rheswm am hynny?

Ffôn/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mae’n aneglur sut bydd y fframwaith cymwyseddau’n cael ei ddefnyddio i helpu i atal gwastraff ar draws pob sbectrwm busnes. Byddai’n darparu arf defnyddiol ar gyfer y cwmnïau hynny sy’n barod i neilltuo amser ar gyfer atal gwastraff, ond efallai na fyddai’n cyrraedd y cwmnïau hynny sy'n anoddach i ymgysylltu â nhw. Yn ein profiad ni, y mentrau sy'n arwain at effeithlonrwydd adnoddau mewn busnesau yng Nghymru yw’r rhai lle y rhagwelwyd ac y cyflawnwyd arbediad ariannol. Yn aml, mae adegau pan nad yw arbedion ariannol cysylltiedig yn cael eu sicrhau. Felly, yn yr achosion hyn efallai y bydd angen rheoleiddio.

Datblygodd Asiantaeth yr Amgylchedd ddull asesu yn seiliedig ar gymwyseddau ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau. Cafodd y system hon ei dreialu yn 2012 i gyd-fynd ag adroddiadau metrig o’r Mynegai Effeithlonrwydd Adnoddau Ffisegol (REPI). Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn hapus i rannu canlyniadau'r treial hwn gyda Llywodraeth Cymru. Dylid nodi fodd bynnag fod y system hon wedi’i datblygu i'w defnyddio yn y sector drwyddedig er mwyn helpu i gyflawni gofynion rheoliadol. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn y sector drwyddedig yn fwy o faint na busnesau bach a chanolig, a byddem yn disgwyl bod ganddynt systemau ar waith i reoli gwastraff ac adnoddau.

**Cwestiwn Ymgynghori 8**

A ydych yn cytuno ei bod yn ymarferol i fusnesau gadw pob un o'r pedair ffrwd gwastraff allweddol ar wahân yn y ffynhonnell (nodwch 'ydw’ neu ‘nac ydw’ yn erbyn pob ffrwd gwastraff)?
a) papur a cherdyn,
b) Plastig a chaniau
c) Gwydr
d) Bwyd
Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny? Pa fathau o fusnes yn eich barn chi fyddai’n wynebu'r heriau mwyaf a pham?

Credwn ei bod yn ymarferol i’r rhan fwyaf o fusnesau wahanu’r 4 ffrwd gwastraff a nodir.
Fodd bynnag, ni fyddai’r canlyniad angenrheidiol yn deillio o orfodi cynhyrchwyr gwastraff i wahanu yn y ffynhonnell oni orfodir gwasanaeth casglu ar wahân o fewn y diwydiant gwastraff hefyd. Mae’r Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn caniatáu casgliadau cymysg. Os yw’n ofynnol i’r cynhyrchwyr gwastraff wahanu gwastraff, yna rhaid iddi fod yn ofynnol i'r diwydiant casglu gwastraff gynnal y gwahanu, fel sy'n ofynnol hefyd o dan y rheoliadau.

Efallai y bydd cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd ar wahân yn her i sefydliadau sy'n cynhyrchu llawer iawn o wastraff bwyd, megis y sectorau arlwyo a lletygarwch. Fodd bynnag, mae llwyddiant cynlluniau casglu gwastraff bwyd o gartrefi ledled Cymru yn dangos bod modd gwneud. Bydd casglu gwastraff bwyd ar wahân yn hanfodol i gadw gwerth y deunyddiau eraill y gellir eu hailgylchu.

Mae tystiolaeth anecdotaidd i awgrymu bod cyflwyno casgliadau o'r fath yn helpu i annog atal gwastraff, am fod defnyddwyr yn fwy ymwybodol o'r hyn y maent yn ei daflu.

Ffôn/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Os cyflwynir y gofynion hyn i fusnesau wahanu gwastraff, yna mae'n hanfodol bod seilwaith casglu a thrin digonol ar waith i dderbyn y deunyddiau hyn. Mae’r cynllun sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMs) yn nodi’r cyfleusterau trin y bydd eu hangen i gyflawni'r targedau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff, a sut y caiff ei gyflwyno. Mae'n hanfodol bod y seilwaith trin gwastraff newydd yn cael ei gyflwyno gan fod y capasiti presennol ar gyfer rhai deunyddiau â blaenoriaeth yn y cyfleusterau presennol yn annigonol i ateb y galw posibl yn y dyfodol.

**Cwestiwn Ymgynghori 9**

A ydych yn cytuno y bydd y mathau o fesurau arfaethedig yn hwyluso casgliadau pellach oddi wrth fusnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig i gyrraedd y targedau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny? Pa fesurau eraill gellid eu hystyried a pham?

Mae’n amlwg bod modd cyflawni gwelliannau posibl gydag arferion gwastraff a chasgliadau oddi wrth fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Adroddodd arolwg sgil-gynhyrchion gwastraff Masnachol a Diwydiannol yng Nghymru 2007, a reolwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod 57% o wastraff diwydiannol a 51% o wastraff masnachol a gynhyrchwyd gan gwmnïau sy'n cyflogi hyd at 20 o bobl, yn cael ei reoli drwy dirlenwi. Bydd cyflwyno gwell systemau casglu o fusnesau bach a chanolig yn hanfodol os bwriedir bodloni’r targedau yn y ddogfen Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Pa fodd bynnag y caiff y systemau casgliadau eu cynllunio, mae'n hanfodol bod ansawdd y deunydd yn cael ei ddiogelu. Gyda mwy o ddeunydd wedi'i ailgylchu ar gael ar y farchnad fyd-eang, mae deunydd o ansawdd gwael yn debygol o gael ei wrthod gan yr ail-broseswyr. Er mwyn cynnal gwerth y deunydd, bydd angen systemau casglu a thriniaeth effeithiol i sicrhau y gellir ei ddefnyddio fel deunydd crai effeithiol o ansawdd da.

Gellid gwella’r cynllun Cwmpawd Gwyrdd i gynnwys asesiad o ansawdd deunydd ar gyfer y cyfleusterau hynny sy'n didoli gwastraff ar gyfer ailgylchu. Bydd angen i rai cyfleusterau wneud hyn drwy ddeddfwriaeth sydd ar y gweill, ond ni fydd pob un o'r cyfleusterau yng Nghymru yn dod o fewn y diffiniad o gyfleuster adfer deunyddiau. Byddai arferion da'n awgrymu bod y gofyniad hwn yn cael ei ymestyn drwy ddulliau gwirfoddol, neu drwy safonau cydnabyddedig megis Cwmpawd Gwyrdd.

Mae'r awgrym bod potensial i awdurdodau lleol gyflwyno gwasanaethau casglu gwastraff ailgylchu masnachol gwell pan nad yw’r sector rheoli gwastraff preifat yn darparu gwasanaeth digonol i’w groesawu, ond mae angen diffiniad o'r hyn sy'n wasanaeth digonol i alluogi'r diwydiant gwastraff yng Nghymru i chwarae ei rhan i fynd i'r afael â’r gofyniad hwn.

Ffôn/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

**Cwestiwn Ymgynghori 10**
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. A hoffech godi neu roi sylwadau ar unrhyw beth arall?

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoleiddio'r gwastraff yng Nghymru, ac fel y cyfryw, byddem yn annog unrhyw gwmnïau sy'n ystyried sefydlu seilwaith gwastraff newydd i gysylltu â ni yn gynnar i drafod unrhyw ofynion trwydded.

Ar ddiwedd 2011, bu Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ymgynghori ar gam nesaf y targedau ailgylchu pecynnu ar gyfer y cyfnod dan sylw, sef 2013-2017. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae pedair gwlad y DU wedi cytuno y dylai targed newydd gael ei osod ar gyfer gwydr, sef ailgylchu 64% o wydr drwy ail-doddi erbyn 2017. Byddai’r newid hwn yn sicrhau gwell canlyniad amgylcheddol yn sgil y cynnydd mewn deunydd wedi’i ailgylchu oherwydd y targed newydd. Y gobaith yw y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael gwared ar y cymhelliant i sefydliadau hawlio Nodyn Adfer Pecynnu drwy dwyll ar gyfer ailgylchu gwydr fel y gwelwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae pryderon efallai na fyddai'r data ar Gyfrifoldeb y Cynhyrchwr a ddyfynnir yn y cynllun sector wedi ystyried y gweithgaredd twyllodrus hwn y bu i Asiantaeth yr Amgylchedd gymryd camau yn ei erbyn yn 2012.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymateb hwn, mae croeso i chi ffonio.

Yr eiddoch yn gywir

Ffôn/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Ff6n/Tel 01248 484151
Ffacs/Fax 01248 670561
Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Pare Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English